Gwybodaeth ategol – Cynnig Ysgol Uwchradd Dewi Sant i newid yr ystod oedran o 11-18 i 11-16

Data disgyblion

Tabl 1- Nifer ar y gofrestr (blynyddoedd blaenorol 2011 - 2014):

Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	504	466	422	420
Blwyddyn 12 (16-17)	55	56	50	46
Blwyddyn 13 (17-18)	26	41	42	39
Cyfanswm	585	563	514	505

Ysgol Uwchradd John Summers

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	336	322	333	311
Blwyddyn 12 (16-17)	28	29	21	24
Blwyddyn 13 (17-18)	21	25	26	26
Cyfanswm	385	376	380	361

Ysgol Uwchradd Cei Connah

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	862	847	808	792
Blwyddyn 12 (16-17)	89	67	85	67
Blwyddyn 13 (17-18)	48	51	48	45
Cyfanswm	999	965	941	904

Ysgol Uwchradd Penarlâg

Oedran	Medi 11	Medi 12	Medi 13	Medi 14
Blwyddyn 7 i 11	965	971	956	962
Blwyddyn 12	104	110	109	103

(16-17)				
Blwyddyn 13 (17-18)	97	108	95	87
Cyfanswm	1166	1189	1160	1152

Tabl 2 – Nifer rhagamcanol y disgyblion

Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney - rhagamcanol (os bydd y ddarpariaeth ôl-16 yn cau ym Medi 2016)

	Gwir ffigurau Medi 14	**Medi 15**	**Medi 16**	**Medi 17**	**Medi 18**	**Medi 19**
7-11	420	442	446	465	496	512
Blwyddyn 12 - 13	85	80				
Cyfanswm ar y Gofrestr	505	522	446	465	496	512

Ysgol Uwchradd John Summers - rhagamcanol (os bydd y ddarpariaeth ôl-16 yn cau ym Medi 2016)

	Gwir ffigurau Medi 14	**Medi 15**	**Medi 16**	**Medi 17**	**Medi 18**	**Medi 19**
7-11	311	310	305	306	301	327
Blwyddyn 12 - 13	50	43				
Cyfanswm ar y Gofrestr	361	353	305	306	301	327

Ysgol Uwchradd Cei Connah - rhagamcanol (os bydd y ddarpariaeth ôl-16 yn cau ym Medi 2016)

	Gwir ffigurau Medi 14	**Medi 15**	**Medi 16**	**Medi 17**	**Medi 18**	**Medi 19**
7-11	792	851	875	852	853	881
Blwyddyn 12 - 13	112	96				
Cyfanswm ar y Gofrestr	904	947	875	852	853	881

Ysgol Uwchradd Penarlâg - rhagamcanol

	Gwir ffigurau Medi 14	Medi 15	Medi 16	Medi 17	Medi 18	Medi 19
7-11	962	968	967	968	970	972
Blwyddyn 12 - 13	190	184	186	185	185	185
Cyfanswm ar y Gofrestr	1152	1152	1153	1153	1155	1157

Safonau addysg

Diffiniadau o farn Estyn
Yn ystod pob arolygiad, bydd yr arolygwyr yn ceisio ateb tri chwestiwn allweddol:
Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
Cwestiwn allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Bydd yr arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol am berfformiad presennol yr ysgol a'r rhagolygon o ran gwella.

Wrth wneud hyn, bydd yr arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt

	Beth y mae'r dyfarniad yn ei olygu
Barn Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Dewi Sant Saltney

Cafodd Ysgol Uwchradd Dewi Sant ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2011; dyma rai o'r sylwadau yn adroddiad yr arolygiad:

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Dewi Sant. Mae 618 o ddisgyblion yn yr ysgol gan gynnwys 72 yn y chweched dosbarth. Roedd 631 o ddisgyblion yn yr ysgol pan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf.

Gall bron 12% o'r disgyblion hawlio prydau ysgol am ddim o'i gymharu â'r cyfartaledd drwy Gymru, sef 15% mewn ysgolion uwchradd. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Saltney yn agos iawn at y ffin rhwng Sir y Fflint / Sir Gaer. Mae tua 12% o'r dysgwyr yn byw yn Lloegr. Does dim dysgwyr o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae lleiafrif bach iawn o ddysgwyr ar hyn o bryd yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae gallu'r disgyblion yn amrywio'n arw. Mae gan ychydig dros un y cant o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd drwy Gymru.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers 2003. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r uwch dîm arwain wedi'i ad-drefnu ac mae'n awr yn cynnwys dirprwy, pennaeth cynorthwyol a thri uwch athro.

Mae'r ysgol yn ceisio darparu addysg o safon uchel i'r holl ddisgyblion er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial llawn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â phump o ysgolion uwchradd eraill ac un coleg addysg bellach i wella'r ddarpariaeth yn CA4 a'r chweched dosbarth.

£3,732 oedd y gyllideb am bob disgybl yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn 2010-2011 o'i gymharu â'r uchafswm o £4,429 a'r isafswm o £3,557 a wariwyd yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint. Hon yw'r 5ed gyllideb isaf am bob disgybl o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint.

Crynodeb

Perfformiad yr ysgol ar hyn o bryd	**Da**
Rhagolygon gwella	**Rhagorol**

Perfformiad ar hyn o bryd

Mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn ysgol dda gan ei bod wedi llwyddo i godi safonau'r disgyblion o ran eu cyrhaeddiad a'u lles. Dyma'r prif ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn:

- mae safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth wedi gwella;
- mae safon y dysgu wedi gwella;
- mae'r modd y defnyddir data i bennu a monitro targedau wedi gwella;
- mae'r cymorth a'r cyngor a roddir i'r dysgwyr wedi gwella.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n ardderchog oherwydd:

• arweinyddiaeth strategol y pennaeth;
• arweinyddiaeth a chymorth hynod effeithiol yr uwch reolwyr a'r rheolwyr canol;
• diwylliant o ddisgwyliadau uchel;
• hanes o lwyddo dros y tair blynedd diwethaf pan welwyd lefelau cyrhaeddiad y dysgwyr yn gwella'n arw.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Dewi Sant:

A1: parhau i wella safonau a lles y dysgwyr ymhellach;

A2: gweithio gyda'r awdurdod lleol i wella cyfleusterau dylunio a thechnoleg;

A3: datblygu'r Gymraeg a'r cwricwlwm Cymreig ymhellach;

R4: parhau i wella presenoldeb.

Mae'r argymhellion hyn yn rhan o gynllun datblygu presennol yr ysgol.

Mae adroddiad llawn ESTYN ar gael yn:
http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644013/

<u>Ysgolion uwchradd lleol eraill</u>

<u>Ysgol Uwchradd John Summers</u>

Cafodd Ysgol Uwchradd John Summers ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Ionawr 2011; dyma rai o'r sylwadau yn adroddiad yr arolygiad:

Cyd-destun

Ysgol gymunedol gymysg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd John Summers a chaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Sir y Fflint. Mae'r ysgol ar gampws mawr yn Queensferry.

Mae 405 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 52 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Pan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf, roedd 515 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 59 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae 29 o staff dysgu cyfwerth ag amser llawn (FTE) a 23 o staff cymorth cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal lle mae amddifadedd cymdeithasol ac economaidd sylweddol. Mae dros 30% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%

Mae gan 3.4% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae angen cymorth ychwanegol ar 17% ychwanegol. Canran y disgyblion oedran ysgol orfodol ar y gofrestr AAA yw 38%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 20.9%. Yn 2010, roedd 32% o ddisgyblion 15 oed ar y gofrestr AAA.

Does dim disgyblion yn siarad Cymraeg iaith gyntaf.

Mae cyfran fechan o'r disgyblion yn cael cymorth i ddysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

Caiff addysg ôl-16 yn yr ardal ei darparu gan Gonsortiwm Ysgolion Glannau Dyfrdwy sy'n cynnwys tair ysgol uwchradd arall a'r coleg addysg bellach lleol.

Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth ac un pennaeth cynorthwyol. Penodwyd y dirprwy bennaeth a'r pennaeth cynorthwyol i'w swyddi presennol yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

Nod yr Ysgol yw 'Sicrhau Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd'.

£4,169 oedd y gyllideb am bob disgybl yn Ysgol Uwchradd John Summers yn 2010-2011 o'i gymharu â'r uchafswm o £4,429 a'r isafswm o £3,557 a wariwyd yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint. Yr ysgol hon sydd â'r gyllideb fwyaf ond un o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint.

Crynodeb

Perfformiad yr ysgol ar hyn o bryd	**Da**
Rhagolygon gwella	**Rhagorol**

Perfformiad ar hyn o bryd

Mae hon yn ysgol dda oherwydd:

A1 mae safonau a lles yn dda ac yn gwella;
A2 mae ethos eithriadol o gref
A3 mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y dysgwyr yn effeithiol iawn;
A4 mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn arbennig o effeithiol.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n ardderchog oherwydd:
• arweiniad y pennaeth sy'n ysbrydoledig ac sy'n ysbrydoli;
• y cymorth rhagorol a gynigir gan yr uwch dîm arwain;

• tîm o staff da iawn, sydd i gyd wedi ymrwymo i wella'r ysgol;
• hanes o lwyddiant arbennig dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi arwain at gynnydd mewn canlyniadau ac ymddygiad;
• systemau sicrwydd ansawdd rhagorol.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers:
A1: barhau i wella safonau a lles y dysgwyr ymhellach;
A2: gwella safon yr adborth a roddir i'r dysgwyr ynghylch gwella'u gwaith;
A3 datblygu'r Gymraeg a'r cwricwlwm Cymreig ymhellach;
A4: parhau i wella presenoldeb.

Mae'r argymhellion hyn yn rhan o gynllun datblygu presennol yr ysgol.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd Ysgol Uwchradd John Summers yn Ysgol Uwchradd yn paratoi cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn ymdrin â'r argymhellion. Bydd hynt y gwaith hwn yn cael ei gofnodi yn adroddiad blynyddol yr ysgol i rieni.

Mae adroddiad llawn ESTYN i'w weld yn:
http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644019.

Ysgol Uwchradd Cei Connah

Cafodd Ysgol Uwchradd Cei Connah ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2011; dyma rai o'r sylwadau yn adroddiad yr arolygiad:

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11-18 oed yw Ysgol Uwchradd Cei Connah. Mae ganddi 992 o ddisgyblion, gan gynnwys 113 yn y chweched dosbarth. Pan gafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf, roedd 973 o ddisgyblion a 75 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Gall bron 13% o'r disgyblion hawlio prydau ysgol am ddim o'i gymharu â'r cyfartaledd drwy Gymru, sef tua 15%. Nid oes yr un o'r disgyblion yn dod o gartref Cymraeg ei hiaith. Mae un y cant o'r disgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae gallu'r disgyblion yn amrywio'n sylweddol. Mae gan lai na dau y cant o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd drwy Gymru.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2002. Mae'r uwch dîm arwain presennol yn cynnwys un dirprwy bennaeth, tri phennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes

Mae'r ysgol yn ceisio gwireddu ei harwyddair, "Gofalwn" i bob dysgwr. Mae'n gofalu i'r un graddau am ddatblygiad academaidd a lles y dysgwyr.

Mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth agos â phump o ysgolion uwchradd eraill a'r coleg addysg bellach lleol i wella'r ddarpariaeth yn CA4 a'r chweched dosbarth.

£3,602 oedd y gyllideb am bob disgybl yn Ysgol Uwchradd Cei Connah yn 2010-2011 o'i gymharu â'r uchafswm o £4,429 a'r isafswm o £3,557 a wariwyd yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint. Yr ysgol hon sydd â'r gyllideb isaf ond un o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint.

Crynodeb

Perfformiad yr ysgol ar hyn o bryd	**Da**
Rhagolygon gwella	**Rhagorol**

Perfformiad ar hyn o bryd

Mae Ysgol Uwchradd Cei Connah yn ysgol dda oherwydd ei bod wedi llwyddo i:
• godi safonau dysgwyr o ran eu cyrhaeddiad a'u lles;
• creu cysylltiadau adeiladol â'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu;
• gwella'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion y dysgwyr;
• cynllunio a sicrhau gwelliannau.

Y Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n ardderchog oherwydd:

• arweiniad strategol y pennaeth;
• arweiniad yr uwch reolwyr a'r rheolwyr canol
• ymrwymiad y staff i wella'n barhaus;
• hanes o lwyddiant arbennig dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn canlyniadau arholiad ac ymddygiad;
• systemau sicrwydd ansawdd rhagorol.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Cei Connah:
A1: barhau i wella safonau a lles y dysgwyr ymhellach;
A2: datblygu'r Gymraeg a'r cwricwlwm Cymreig ymhellach;
A3: parhau i wella presenoldeb.

Mae'r argymhellion hyn yn rhan o gynllun datblygu presennol yr ysgol.

Mae adroddiad llawn ESTYN ar gael yn:
http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644022/

Ysgol Uwchradd Penarlâg

Cafodd Ysgol Uwchradd Penarlâg ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2009 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2010; dyma rai o'r sylwadau yn adroddiad yr arolygiad:

Cyd-destun

Ysgol gyfun cyfrwng Saesneg sy'n darparu addysg 11-18 yw Ysgol Uwchradd Penarlâg. Mae 1,114 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys 181 yn y chweched dosbarth. Caiff yr ysgol fwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael ac mae'r chweched dosbarth 20% yn fwy nag yr oedd pan gynhaliwyd yr arolygiad diwethaf.

Daw'r disgyblion o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd amrywiol iawn, er mai ychydig sydd o gefndiroedd difreintiedig. Mae tua 6% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n llawer is na'r cyfartaledd drwy Gymru, sef 15% yn yr ysgol uwchradd. Does dim disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith neu sy'n siarad Cymraeg iaith gyntaf neu i safon gyfatebol.

Mae hi'n ysgol gwbl gyfun ac yn cynnwys cyfran gymharol uchel o ddisgyblion sydd â gallu uwch na'r cyfartaledd. Ychydig dros 2% sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig o'i gymharu â 3% drwy Gymru. Mae gan yr ysgol hefyd uned i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu penodol.

Bu nifer o newidiadau yn arweinyddiaeth yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf. Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Ionawr 2007. Ers hynny, ad-drefnwyd y tîm arwain a phenodwyd dirprwy bennaeth newydd ym mis Medi 2007 a phennaeth cynorthwyol newydd ym mis Medi 2009. Crëwyd nifer o swyddi eraill hefyd yn y tîm arwain ers mis Ionawr 2008.

Gwelwyd nifer o welliannau'n ddiweddar i'r adeiladau a'r cyfleusterau TGCh. Cyflwynwyd Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ym mis Medi 2008. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi ennill nifer fawr o wobrau cenedlaethol, fel Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, Buddsoddwyr mewn Pobl, Safon Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac ActiveMarc Cymru.

Nod yr ysgol yw "sicrhau bod y disgyblion yn cyrraedd eu potensial llawn fel unigolion ac fel aelodau cyfrifol o'r gymuned, a'u paratoi at oes o ddysgu".

Crynodeb

Barn gyffredinol am yr ysgol	**Da**
Rhagolygon gwella	**Rhagorol**

Barn gyffredinol

Mae hon yn ysgol dda oherwydd:

- mae safonau a lles yn dda ac yn gwella;
- mae'r ddarpariaeth yn dda ac mae rhai agweddau rhagorol, fel y cwricwlwm

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n ardderchog oherwydd:

- arweiniad rhagorol y pennaeth a gweddill yr uwch staff;
- hanes o lwyddiant arbennig dros y tair blynedd diwethaf sydd wedi arwain at gynnydd mewn canlyniadau, y cwricwlwm a threfniadau gweithio mewn partneriaeth;
- systemau cadarn sydd wedi'u hen sefydlu i adolygu cynnydd a nodi meysydd i'w gwella; a
- blaenoriaethau clir ar gyfer gwella, a chynlluniau ac adnoddau priodol i'w rhoi ar waith.

Argymhellion

Er mwyn gwella, rhaid i staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Penarlâg:

- parhau i wella safonau a lles y disgyblion ymhellach;*
- cryfhau rôl y rheolwyr canol yn y trefniadau hunanwerthuso*;
- ehangu arfer da yn y dysgu*;
- sicrhau cysondeb yn y modd y caiff gwaith y disgyblion ei farcio *;
- penodi disgybl lywodraethwyr cyswllt;
- rhoi mwy o lais i ddisgyblion wrth benderfynu beth a phryd i ddysgu;
- cryfhau'r modd y caiff rhifedd ei gyflwyno drwy'r cwricwlwm*.

* Mae'r argymhellion yn rhan o gynllun datblygu'r ysgol.

Mae adroddiad llawn ESTYN i'w weld yn:
http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644000/

Effaith y cynnig ar Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney

Gan fod Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney wedi bod yn rhan o'r trefniadau i weithio mewn partneriaeth, mae wedi'i hintegreiddio'n llawn yn y broses o ddatblygu'r ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria.

Caiff unrhyw risgiau i ddisgyblion/staff eu lliniaru drwy drefniadau pontio effeithiol a threfniadau cydgysylltu da i sicrhau dilyniant yn y dysgu a'r broses recriwtio. Bydd cymorth ar gael hefyd i'r disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn cael cyngor ac arweiniad pan fo angen.

Mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant hefyd yn rhan o grŵp cynghori'r Ganolfan Dysgu Ôl-16 a sefydlwyd i ddatblygu methodoleg gweithredu sy'n hybu ethos o weithio mewn partneriaeth ym modelau gweithredu'r cyfleuster newydd hwn

O gofio y bydd y ganolfan ôl-16 ar waith erbyn mis Medi 2016, mae llywodraethwyr Dewi Sant wedi bod yn bwrw ymlaen â'r broses o ad-drefnu'r ysgol i hwyluso'r cynnig i newid yr ystod oedran. Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar y cwricwlwm 11-16.

Mae Coleg Cambria wedi cytuno y caiff staff dysgu yn ysgolion y consortiwm eu penodi i'r cyfleuster ôl-16 yn y coleg yn ystod cam cyntaf y broses recriwtio os bydd ganddynt y cymwysterau a'r profiad perthnasol,.

Effaith y cynnig ar ysgolion lleol eraill yr ardal

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar ysgolion eraill yr ardal o ran cyflwyno'r cwricwlwm priodol.

Bydd ysgolion sy'n rhan o'r grŵp o bartneriaid sy'n gysylltiedig â'r ganolfan ôl-16 yn dilyn y trefniadau uchod.

Costau cludiant

Ni fydd union gostau cludiant ar gael tan ar ôl mis Medi 2016, pan fydd Canolfan newydd Coleg Cambria ar waith.